

Telerau ac Amodau

Grant Cymorth i Ddarparwyr Gofal Plant (CWTCH)

Rhan A, B ac C

Wrth wneud cais am y Grant, rydych yn cadarnhau eich bod yn deall ac y byddwch yn cynnal gofynion, rhwymedigaethau, egwyddorion a thelerau ac amodau'r Grant yn llawn fel y nodir isod:

Diben

Darparu cyllid cynaliadwyedd i gefnogi lleoliadau gofal plant i barhau i weithredu drwy gydol heriau'r Coronafeirws, lle nad oes unrhyw arian cyhoeddus arall yn cael ei ddarparu i dalu'r un costau.

Cefnogi teuluoedd drwy ddileu'r angen i ddarparwyr godi ffioedd rhieni pan nad yw gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

Gellir defnyddio'r cyllid hwn hefyd i dalu costau uwch sy'n gysylltiedig â'r Coronafeirws e.e. prynu cyfarpar diogelu personol, costau gwresogi ychwanegol sy'n deillio o'r angen am fwy o awyru neu gostau sy'n gysylltiedig â gofynion glanhau ychwanegol.

Gellir ôl-ddyddio'r arian hwn hyd at 14 Medi 2020.

Mae 3 elfen i'r Grant (A, B ac C)

Grant A - Grant Hunanynysu (Cau'r Lleoliad yn Llawn/Rhannol)

Grant B - Grant sy'n Gysylltiedig â'r Safle

Grant C - Costau Uwch (Oherwydd y Coronafeirws)

Rhaid peidio â barnu bod dyfarnu grant yn y flwyddyn ariannol hon (Ebrill 20 - Mawrth 2021) yn rhoi unrhyw sicrwydd y dyfernir Grant ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Gofynion Cymhwysedd

Mae'r grant ar gael i fusnesau gofal plant, sydd wedi'u cofrestru gyda AGC, y mae'r coronafeirws wedi effeithio arnynt.

- Sylwch y bydd unrhyw gymorth a gewch neu y byddwch yn ei gael gan ffynonellau cyhoeddus mewn perthynas â'r Coronafeirws o fis Mawrth 2020 hyd yma yn cael ei gyfrif a rhaid ei ddatgan. Bydd hyn yn cynnwys cyllid sy'n ymwneud â'r Cynnig Gofal Plant i Gymru, y Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws (CJRS), Dechrau'n Deg, Meithrinfa'r Cyfnod Sylfaen (FPN), Cyllid Cadernid Economaidd Cymru (Camau 1-3) unrhyw Arian Cyhoeddus arall ac unrhyw gymorth ariannol a dderbynnir gan eich Awdurdod Lleol, megis grantiau cynaliadwyedd a dechrau busnes (mae'r rhain ar wahân i Gynllun Grant Dechrau Busnes Busnes Cymru)
- Bydd y taliad yn cael ei wneud i Ddarparwyr Gofal Plant sy'n gymwys erbyn 31 Mawrth 2021

- Mae'r grant hwn ar gael i bob lleoliad gofal plant sydd ar agor ac yn weithredol, neu sy'n gallu dangos y bydd yn ailagor os yw ar gau ar hyn o bryd.
- Rhaid i ddarparwyr gadw at y wybodaeth ddiweddaraf am y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Rheoliadau sy'n ymwneud â gofal plant a gweithredu unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r safonau a rheoliadau hynny.
- Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod gan bob aelod o staff y profiad, y cymwysterau a'r sgiliau priodol a ddisgwyliid gan unigolyn sy'n darparu gofal plant diogel ac o safon.
- Rhaid bod gan ddarparwyr Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus/Cyflogwyr dilys ar waith bob amser ac am y swm priodol drwy gyfeirio at nifer y plant yn eu gofal
- Mae darparwyr yn gyfrifol am y wybodaeth a ddarperir i Gyngor Caerdydd, a rhaid iddynt sicrhau bod y wybodaeth honno'n gywir ac yn gyfredol
- Rhaid bod darparwyr wedi'u cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Egwyddorion Sylfaenol

- Grant refeniw gweinyddol yw hwn a gellir ei ddefnyddio i dalu am golli incwm **digyllid** a gellir ei ddefnyddio yn erbyn pob eitem refeniw.
- Ni all darparwr dderbyn cyllid gan **ddau** ffynhonnell arian cyhoeddus mewn perthynas â'r un plentyn neu'r un costau am yr un cyfnod (DS: gall darparwyr wneud cais am y Grant Hunanynysu am hyd at 3 chyfnod cau rhwng 14.09.2020 a 31.03.2021)
- Mae'r Grant i'w ddefnyddio i ariannu darparwyr ar gyfer lleoedd **a archebwyd** nad ydynt yn cael eu defnyddio dros dro (e.e. hunanynysu) ac i gefnogi lleoliadau sy'n gorfod rhoi cyfyngiadau ar nifer y plant y gallant ofalu amdanynt oherwydd cyfyngiadau **allanol** yn sgil y Coronafeirws.
- Bydd pob ymgeisydd yn cael ei ystyried ar sail unigol a thelir y grant yn ôl disgrisiwn llwyr yr Awdurdod Lleol o fewn y meini prawf a nodir.
- Byddwn yn cydnabod derbyn eich cais o fewn 10 diwrnod gwaith.
- Gwneir penderfyniadau ar geisiadau yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynir yn y ffurflen gais, y dystiolaeth gysylltiedig a'r gwiriadau gwybodaeth a wneir o ffynonellau data busnes eraill. Os yw unrhyw ddata yn anghyflawn neu'n anghywir neu os yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn annigonol, **ni fyddwn** yn gallu prosesu'r cais a chaiff ei wrthod.
- Dylai ymgeiswyr nodi y gall fod angen ad-dalu'r grant yn llawn neu'n rhannol i'r Awdurdod Lleol os daw tystiolaeth i'r amlwg nad oedd yr ymgeisydd yn gymwys.

Grant A: Grant Hunanynysu (Cau Lleoliad yn Gyfan Gwbl neu'n Rhannol)

Er mwyn cefnogi lleoliadau unigol y bu'n ofynnol iddynt gau'n gyfan gwbl neu'n rhannol oherwydd y Coronafeirws.

- Telir arian grant ar ôl i'r lleoliad/ystafell neu'r ardal yn y lleoliad y bu rhaid ei gau gael ei ailagor.
- Bydd angen tystiolaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru/Iechyd yr Amgylchedd (IA)/Profi, Orlhain, Diogelu (POD) yn rhoi manylion ynghylch y cau.

- Bydd rhaid cyflwyno copi o'r Hysbysiad i AGC o gau ac ailagor ynghyd â'ch Cais am Grant.
- Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 31 Mawrth 2021.

Mae'r swm y byddwch yn gymwys i'w hawlio yn seiliedig ar nifer y lleoedd gofal plant a **archebwyd nad oeddynt ar gael** oherwydd cyfarwyddyd i Hunanynysu. **Ni all** y lleoedd nad oeddynt ar gael gael eu hariannu gan y Cynnig Gofal Plant neu arian cyhoeddus arall, fel Dechrau'n Deg, neu ffioedd rhieni.

Enghraifft

Os oes rhaid i ystafell gyda 10 o blant yr archebwyd lle iddynt hunanynysu, ond bod 5 eisoes yn cael eu hariannu gan y Cynnig Gofal Plant, yna bydd y grant yn talu am 7 lle

Mae incwm o'r grant hwn yn **gyfraniad** tuag at gostau rhedeg cyffredinol

Mae'r grant yn gyfraniad i dalu am golli incwm o **ffioedd preifat YN UNIG**. Ni ellir hawlio os yw'r lleoliad yn codi tâl ar rieni am y lleoedd hyn.

Y swm a delir yw £4.50 yr awr. Bydd nifer yr oriau yn adlewyrchu hyd y sesiwn a ddarperir.

- £45 fesul diwrnod llawn (gofal dydd llawn/gofal sesiynol gofal dydd llawn/gofal yn ystod y gwyliau) – hyd at 10 awr
- £22.50 fesul hanner diwrnod (gofal cofleidiol mewn gofal dydd llawn; sesiwn hanner diwrnod mewn gofal dydd llawn) – hyd at 5 awr
- £13.50 fesul lle gofal sesiynol (cylch chwarae, Cylch, clwb ar ôl ysgol) - hyd at 3 awr
- Os oes rhaid i Feithrinfâ Ddydd / Gofal Sesiynol gau ystafell sydd fel arfer â 10 lle llawn-amser, ond bod y rhain yn cael eu meddiannu gan rai lleoedd llawn-amser a rhai lleoedd rhan-amser a archebwyd, dylid categorio'r rhain yn unol â hynny.
- Gall darparwyr wneud cais am hyd at **3** chyfnod cau rhwng 14 Medi 2020 hyd nes y bydd y gronfa wedi'i hymrwymo'n llawn neu 31 Mawrth 2021, pa un bynnag sydd gynharaf

D.S. Bydd y grant yn cynnwys lleoedd wedi'u harchebu a gollwyd oherwydd cau'r lleoliad yn gyfan gwbl/rhannol yn unig a bydd angen rhoi tystiolaeth o'r archebion i'r Awdurdod Lleol

B. Grant sy'n Gysylltiedig â'r Safle

Ar gyfer lleoliadau 'tenant' (ysgol, canolfan gymunedol, neuadd eglwys, cwt sgowtiaid ac ati) nad ydynt yn gallu gweithredu neu'n gorfod gweithredu gwasanaeth llai yn unig oherwydd gofynion 'Landlord'/Iechyd Cyhoeddus Cymru neu Ganllawiau Cyngor Iechyd yr Amgylchedd/Mesurau Diogelu.

Bydd y Grant hwn yn cefnogi lleoliadau sydd, o ganlyniad i'r Coronafeirws, wedi colli incwm a chostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Coronafeirws.

Egwyddorion Cyffredinol

- **NID** yw lleoliadau'n gymwys i hawlio am gostau staff unigol os ydynt wedi defnyddio'r Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws (CJRS) neu'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd i dalu cyflogau'r staff hynny tra'u bod wedi cau
- Mae hwn yn gyfraniad at golli ffioedd preifat a chostau uwch oherwydd y pandemig.
- Bydd gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o'r golled incwm na ellir ei hosgoi oherwydd y cyfyngiadau allanol a osodir arnoch yn sgil y pandemig.

D.S. Bydd hwn ond yn berthnasol i fusnesau lle mae'r lleoliad yn parhau i fod ar gau yn gyfan gwbl neu'n rhannol oherwydd gofynion landlordiaid / cwmnïau allanol (yn hytrach na phenderfyniadau a wneir yn fewnol gan y busnes) a gellir profi nad oes modd osgoi cau'r lleoliad.

Lle bo'n berthnasol, dylid annog staff i wneud cais am y £500 Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Cyflog Isel, sy'n methu gweithio oherwydd y pandemig

- Mae'r grant yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod darparwyr yn gallu cadw gweithlu gofal plant nad ydynt, oherwydd cyfyngiadau allanol, yn gallu gweithio ac na allant gael mynediad i'r Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws (CJRS), i'w hatal rhag cael eu diswyddo.
- Bydd rhaid i'r Lleoliad gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig gan Landlord, Ysgol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac ati yn cadarnhau bod y lleoliad yn gweithredu ar niferoedd is neu ar gau oherwydd gofynion y Landlord
- Bydd angen copi o'r Hysbysiad yr anfonwyd at AGC yn rhoi manylion ynglŷn â gorfod cau dros dro.
- Dim ond i dalu am batrwm gwaith arferol y lleoliadau y bydd cyllid ar gael (e.e. telir am wythnosau gwyliau i'r lleoliadau hynny sydd fel arfer yn gweithredu gwasanaeth yn ystod y gwyliau)

Enghreifftiau

1. Staff gofal plant sesiynol **nad ydynt** ar y Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws (CJRS) = £12.50 fesul hanner diwrnod = £62.50 fesul aelod o staff yr wythnos
2. Staff Gofal Dydd Llawn/Gofal Gwyliau **nad ydynt** ar y Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws (CJRS) = £25 y dydd = £125 fesul aelod o staff yr wythnos

Gall y grant hwn gael ei ddefnyddio i dalu am staff Gweithredol **yn unig**. Bydd rhaid i leoliadau ddarparu tystiolaeth, gan roi manylion y staff yr effeithiwyd arnynt wrth orfod cau'n gyfan gwbl/rhannol ac nad ydynt yn cael eu hariannu drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws (CJRS). Bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal gwiriadau ar hap ar y staff dan sylw.

Grant B1 – Cau'n Rhannol

- Costau staff fel y nodir uchod

- Yn ogystal â chyfandaliad untro o hyd at £1,000 ar gyfer Gofal Dydd Llawn/£500 ar gyfer Gofal Sesiynol fesul lleoliad. Bydd angen cyflwyno tystiolaeth ynghyd â'r cais, gan roi manylion y costau rheolaidd, nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr,
- Biliau Cyfleustodau, Nwy, Dŵr, Trydan
- Yswiriant
- Yswiriant Gwladol/Cyfraniadau Pensiwn...

Grant B2 - Cau'n Gyfan Gwbl

- Costau Staff fel y nodir uchod
- Yn ogystal â chyfandaliad untro o hyd at £2,000 ar gyfer Gofal Dydd Llawn/£1000 ar gyfer Gofal Sesiynol fesul lleoliad ar gyfer gorbenion, costau yswiriant ac ati, fel y manylir arnynt yn **B1**

Mae uchafswm y grant sydd ar gael dan y llinyn hwn wedi'i gapio ar £5,000

C. Grant Costau Uwch

Gellir defnyddio'r grant hwn i dalu am gostau uwch sy'n gysylltiedig â'r Coronafeirws, e.e. prynu cyfarpar diogelu personol, costau gwresogi ychwanegol sy'n deillio o'r angen i gynyddu'r awyru a gofynion glanhau ychwanegol

- Bydd y lleoliadau'n derbyn taliad untro gydag uchafswm symiau wedi'u capio fel y dangosir isod, yn dibynnu ar gofrestrriad gyda AGC:

• Math y lleoliad	Swm (£)
Gwarchodwr Plant	250
Sesiynol*	350
Gofal Dydd Llawn**	500

* Brecwast, ar ôl ysgol, cylch chwarae a crèche

** Meithrinfa gofal dydd llawn, gofal yn ystod y gwyliau

- Ystyrir bod y taliadau'n ennill cyflog ac felly maent i'w cynnwys yn eich Ffurflen Dreth
- **Rhaid i chi ymateb drwy e-bost i gadarnhau eich bod yn derbyn Grant C, o fewn 14 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y Cynnig. Wrth dderbyn y taliad untro rydych yn cadarnhau nad ydych wedi cael arian cyhoeddus, ac nad ydych wedi gwneud cais llwyddiannus am unrhyw arian cyhoeddus ychwanegol, sy'n talu'r un costau. Os na dderbynnir y taliad o fewn y cyfnod hwn, caiff y cynnig ei dynnu'n ôl.**

Cofiwch y gall gymryd hyd at 6 wythnos i'w brosesu ac iddo ymddangos yn eich cyfrif. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm drwy'r e-bost canlynol cymorthbusnesgofalplant@caerdydd.gov.uk.

Eich rhwymedigaethau cyffredinol i ni

Ar adeg gwneud cais ac ar ôl hynny, mae'n ofynnol i chi roi gwybodaeth wir a chywir i gefnogi eich cais am grant.

Rhaid i chi ein hysbysu ar unwaith trwy gysylltu â cymorthbusnesgofalplant@caerdydd.gov.uk yn achos y canlynol:

- I. Os yw taliad wedi'i wneud i chi mewn camgymeriad, a/neu os oes unrhyw amgylchiadau a allai fod wedi effeithio ar y penderfyniad i gymeradwyo eich cais am grant pe bai'r Cyngor yn gwybod amdanynt ar adeg eich cais.
- II. Os oes gennych unrhyw amheumon na fydd y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn eich cais yn hollol gyflawn, gwir neu gywir, gan gynnwys (ymhlith eraill):
 - Eich awdurdod i wneud y cais ar ran y busnes;
 - Eich ystyriaeth o'r holl wybodaeth angenrheidiol i sicrhau eich bod yn gymwys.
- III. Nid ydych wedi datgelu pob ffaith neu amgylchiad perthnasol i ni fel y gallwn ni gael dealltwriaeth wir a chywir er mwyn prosesu eich cais yn gywir.

Diogelu Data

Mae'r wybodaeth yn eich cais wedi'i defnyddio i brosesu'ch cais am Grant Cymorth i Ddarparwyr Gofal Plant (Cwtch).

- Caiff gwybodaeth bersonol a ddarperir trwy eich cais ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd fel y rheolwr data at ddibenion penodol Cynllun Grantiau Busnes Llywodraeth Cymru;
- Prosesir data personol yn unol â Pholisi Preifatrwydd Cyngor Caerdydd ac ni chaiff ei rannu gydag unrhyw sefydliad trydydd parti heb eich cydsyniad penodol oni bai ei bod yn ofynnol i ni neu y caniateir i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith;
- Mae gan Gyngor Caerdydd ddyletswydd i ddiogelu arian cyhoeddus ac mae'n cymryd rhan mewn gwahanol ymarferion atal twyll gyda nifer o bartneriaid ac asiantaethau allanol. Gall eich data gael ei rannu/defnyddio, at ddiben atal a chanfod twyll lle yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol, yn briodol ac yn gyfreithlon i wneud hynny.
- Ceir rhagor o wybodaeth am rwymedigaethau'r Cyngor o ran Diogelu Data ar dudalen Polisi Preifatrwydd y Cyngor. [Hysbysiad Preifatrwydd \(cardiff.gov.uk\)](http://cardiff.gov.uk)

Twyll

- Mae gan Gyngor Caerdydd ddyletswydd i ddiogelu arian cyhoeddus ac mae wedi cyhoeddi ymagwedd dim goddefgarwch tuag at dwyll;
- Bydd y Cyngor yn gweithredu'n gadarn ac yn bendant pan fo amheuaeth am dwyll, bydd hyn yn cynnwys ymchwilio i amheumon, cysylltu â Heddlu De Cymru, rhoi gwybod iddynt am unrhyw bryderon a chymryd camau i adennill unrhyw golledion a chosbi troseddwr
- Bydd unrhyw arian sy'n cael ei dalu y canfyddir yn ddiweddarach ei fod yn anghymwys yn destun camau adfer yn y dyfodol.

Datganiad

Rwyf wedi darllen a derbyn telerau ac egwyddorion y grant, y gofynion cymhwysedd, fy nghyfrifoldebau a'm rhwymedigaethau.

- Rwy'n cadarnhau nad yw'r busnes wedi cael, ac nad yw wedi gwneud cais llwyddiannus am unrhyw Arian Cyhoeddus sy'n talu'r un costau.
- Rwy'n cydsynio i brosesu data ac ar gyfer archwiliadau llyfr agored o gofnodion at ddiben archwilio/adolygu ac rwy'n derbyn y bydd unrhyw daliadau a nodir yn daliadau anghymwys yn destun camau adfer yn y dyfodol.
- Wrth wneud cais am yr arian, rydym/rydw i wedi bodloni a byddem/byddaf yn parhau i fodloni'r meini prawf cymhwysedd/telerau grant a'r rhwymedigaethau cyffredinol i'r Cyngor.
- Rydw i wedi llenwi'r ffurflen gais a'r datganiadau cysylltiedig yn gywir ac yn onest.
- Rwyf wedi darllen a deall Datganiadau Diogelu Data a Thwyll y Grant Cymorth i Ddarparwyr Gofal Plant (CWTCH).
- Deallaf y bydd rhaid ad-dalu'r grant yn llawn os daw tystiolaeth i'r amlwg nad wyf yn gymwys ar gyfer y Grant Cymorth i Ddarparwyr Gofal Plant (CWTCH).

Llofnod.....

Enw mewn llythrennau bras.....

Enw'r lleoliad.....

Dyddiad

Enw'r Lleoliad*	
Cyfeiriad E-bost y Gohebydd*	
Rhif Ffôn*	
Enw'r Banc*	
Cangen*	
Cod Didoli*	
Rhif Cyfrif*	

Rhif Cyfrif y Banc*	
---------------------	--

Meysydd gofynnol*

Atodiad 1

*Ticiwch y rhestr fel y nodir ar y ffurflen gais

Gwybodaeth Gyffredinol i'w hamgáu gyda'ch Cais am Grant

Rwyf wedi amgáu copïau dilys o'r dogfennau isod:
Dogfen Llywodraethu Cyfreithiol (Cyfansoddiad, Tystysgrif Ymgorffori, ayyb)
Tystysgrif Gofrestru AGC (neu dystiolaeth o gychwyn y broses gofrestru)
Os nad yw'r lleoliad wedi'i gofrestru, rhaid cadarnhau y bydd yn cysylltu â Busnes Cymru i ddechrau'r broses a chydysnio i ni gysylltu â Busnes Cymru i gael y wybodaeth/gweld y cynnydd diweddaraf tuag at gofrestru gydag AGC.
Rwyf wedi cadw: Copi o'r cais hwn ar gyfer fy nghofnodion

Atodiad 2 Grant A

Gwybodaeth ychwanegol i'w chyflwyno ar gyfer Grant A

Llythyr neu e-bost gan Iechyd Cyhoeddus Cymru/Iechyd yr Amgylchedd, Profi, Orlhain Diogelu
Copi o hysbysiad cau ac ailagor yr anfonwyd at AGC
Sgan/copi o'r gofrestr archebu wedi'i golygu yn cynnwys manylion yr archebion llawn-amser a rhan-amser mewn lleoliadau yr hawlir amdanynt, gyda'r manylion cywir a chyfredol
Cadarnhad na chodwyd tâl ar rieni drwy gydol y cyfnod cau a bod yr holl rieni yr effeithiwyd arnynt wedi derbyn copi o'r llythyr templed a ddarparwyd gan yr Awdurdod Lleol
Cadarnhad nad yw'r holl gostau staff yr hawliwyd amdanynt yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws (CJRS) neu'r Cynllun Cymorth Hunanynysu

Atodiad 3 Grant B

Gwybodaeth ychwanegol i'w chyflwyno ar gyfer Grant B

Cyflwynwch dystiolaeth o golli enillion na ellir eu hosgoi yn sgil y cyfyngiadau allanol a osodwyd arnoch
Cadarnhad nad yw'r costau staff yr hawliwyd amdanynt yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws (CJRS)
Llythyr neu e-bost gan Landlord, Ysgol, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ati yn cadarnhau bod y lleoliad yn gweithredu ar niferoedd is neu ar gau oherwydd gofynion y Landlord
Copi o'r hysbysiad yr anfonwyd at AGC am gau'r sefydliad yn gyfan gwbl neu'n rhannol

Atodiad 4 Grant C

Gwybodaeth ychwanegol i'w chyflwyno ar gyfer Grant C

Cyflwynwch dystiolaeth o gostau ychwanegol a ysgwyddwyd oherwydd y Pandemig ers ailagor, rhwch ddyddiad ailagor.
Rhowch fanylion costau uwch/costau parhaus yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r Pandemig